# Agenda - Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Ionawr 2016

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

**Alun Davidson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddAmgylch@Cynulliad.Cymru

---

**Rhag-gyfarfod preifat** (08.45-09.00)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Ymchwiliad i Ddyfodol ynni craffach i Gymru?

(Tudalennau 1 - 34)

Dogfennau atodol:

Y Briff Ymchwil

**2.1 Ymchwiliad i Ddyfodol ynni craffach i Gymru? - Storio** (09.00-10.00)

Dr Jill Cainey, The Electricty Storage Network

Chloe Bines, Eunomia

Paul Brodrick, Siemens

**2.2 Ymchwiliad i Ddyfodol ynni craffach i Gymru? - Ofgem** (10.00-11.00)

Maxine Frerk, Ofgem

Lia Murphy, Ofgem

**2.3 Ymchwiliad i Ddyfodol ynni craffach i Gymru? - Gweinidogion yn craffu** (11.00-12.00)

(Tudalennau 35 - 36)

Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Yr Athro Ron Loveland, Cynghorydd Egni dros Llywodraeth Cymru

Prys Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd

Dogfennau atodol:

Papur 1: Papur y Gweinidog ar gyfrifoldebau ynni

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Ymateb gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Cyllid ar gyfer Cynlluniau Ynni Cymunedol yng Nghymru

(Tudalennau 37 - 39)

## Ôl-drafodaeth breifat (12.00-12.20)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Papur Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd I ddyfodol ynni craffach i Gymru.**

Mae’r papur hwn yn disgrifio cyfrifoldebau portffolios Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol am ynni

## 1. Gosod cyfeiriad clir

Disgrifir polisi ynni Llywodraeth Cymru yn ***Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012).*** Yr amcan yw sicrhau economi isel ei charbon sy’n darparu swyddi a ffyniant tymor hir mewn cydweithrediad â busnesau a chymunedau i ddarparu dyfodol ynni carbon isel craffach i Gymru.

Yn unol â chyfrifoldebau Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am ynni, cyhoeddwyd Datganiad Ynni ym mis Ebrill 2015./ Mae’n disgrifio sut i barhau â’r newid i economi carbon isel trwy weithio gyda diwydiant a rhanddeiliaid eraill. Mae’n cydnabod yr angen am amgylchedd sefydlog, arloesol a hyblyg ar gyfer cefnogi buddsoddi a swyddi tymor hir. Mae’n cynnig gweledigaeth glir:

a) diogelu a manteisio i'r eithaf ar ynni yng Nghymru drwy arweiniad cryf ar draws y llywodraeth;
b) manteisio ar y newid i gynhyrchu ynni carbon isel, i gael y budd mwyaf posibl i fusnesau, aelwydydd a chymunedau Cymru;
c) cynnal amgylchedd cystadleuol a chefnogol i fusnesau er mwyn sicrhau buddsoddiad a chyflenwad cynaliadwy;
d) ceisio sicrhau cydraddoldeb a mwy o ddylanwad o fewn y DU a thu hwnt i Gymru a'i buddiannau.

Bwriedir i’r datganiad ynni chwarae rhan bwysig o ran sbarduno’r economi i dyfu, creu mwy o swyddi a sgiliau gwyrdd ledled Cymru a gwneud ein busnesau’n fwy cystadleuol trwy arloesedd.

Bydd y ‘Twf Gwyrdd’ hwn yng Nghymru’n sbarduno datblygiad economaidd a thegwch cymdeithasol gan sicrhau yr un pryd bod ein hasedau naturiol yn gallu parhau i ddarparu’r adnoddau a’r gwasanaethau amgylcheddol y mae ein lles yn dibynnu arnynt. Mae Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol yn disgrifio gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni lleol yng Nghymru ar draws y portffolio Cyfoeth Naturiol.

## 2. Cyfrifoldebau

Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gyfrifol am:

- **Polisi ynni, cyfleusterau a seilwaith ynni mawr (i gynnwys “grid”), datganoli materion ynni, dur, glo, olew a nwy.** Y prif flaenoriaeth yw datganoli materion ynni: Bil Cymru a’r Bil Ynni.

- **Sectorau economaidd gan gynnwys Ynni a’r Amgylchedd, Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch ac Adeiladu**. Sicrhau swyddi, twf a chyfleon cadwyni cyflenwi ar brosiectau mawr megis Wylfa Newydd, datgomisiynu Magnox, a Morlyn Llanw Bae Abertawe

- **Gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesi gan gynnwys ymchwil a datblygu, trosglwyddo gwybodaeth a masnachol.** Manteisio ar ymchwil, datblygu ac arloesi ym maes ynni gan ymateb i brif heriau ynni strategaeth Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru sef ynni carbon isel ac amgylchedd.
- **Grwpiau sector a gweinidogol sy'n cynnig cyngor arbenigol a chyfeiriad ar faterion ynni.** Y prif grwpiau cynghori yw grŵp cyflawni strategol Ynni Cymru; panel y sector Ynni a'r Amgylchedd, grŵp gorchwyl a gorffen Diwydiannau'r Môr a grŵp gorchwyl a gorffen Magnox.

Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn gyfrifol am:

- **Bolisi sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni bach i ganolig, ynni domestig, defnyddio ynni'n effeithlon a lleihau tlodi tanwydd**. Y prif flaenoriaeth yw Twf Gwyrdd Cymru, Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni, Cartrefi Cynhesach

Hefyd, bydd meysydd eraill yn y portffolio'n effeithio ar ynni, gan gynnwys:

- **Cyfrifoldeb trawsbynciol am Ddatblygu Cynaliadwy, gan gynnwys Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**. Mae cynhyrchu ynni yng Nghymru'n rhan bwysig o'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

- **Cyfoeth Naturiol Cymru**. Mae swyddogaethau menter a rheoleiddio CNC yn gallu cefnogi twf gwyrdd a'r newid i gymdeithas carbon isel, a gwneud Cymru'n fwy galluog yn y tymor hir i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd

- **Mesurau lliniaru ac addasu trawsbynciol ar gyfer y newid yn yr hinsawdd**.. Bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn cryfhau'r ymrwymiad i leihau allyriadau $CO_2$ drwy osod targedau statudol ar newid hinsawdd a chyllidebau carbon er mwyn sbarduno rhagor eto o weithredu i arafu'r newid yn yr hinsawdd. Y nod y yw sicrhau 80% o ostyngiad mewn $CO_2$ erbyn 2050.

- **Adnoddau cynaliadwy a rheoli gwastraff yng Nghymru**. Yr uchelgais yw gweld Cymru'n ailgylchu 70 y cant o'i holl wastraff erbyn 2025 a chynhyrchu dim gwastraff erbyn 2050.

- **Pob agwedd ar bolisi cynllunio, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau statudol i Awdurdodau Lleol a phenderfynu ar anghydfodau ac apeliadau cynllunio** . Polisi Cynllunio Cymru sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer polisi ynni a chynllunio yng Nghymru. Mae cyfrifoldebau eraill yn cynnwys Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, penderfynu ar geisiadau am ganiatâd ynni a datblygiadau a ganiateir.
- **Rheoliadau Adeiladu (Eithrio rhai mathau o adeiladau rhag Rheoliadau Adeiladu a phenderfynu ar apeliadau yn eu cylch)** Mae rheoliadau adeiladu'n gosod safonau effeithiolrwydd ynni a carbon isel ar gyfer dylunio ac adeiladu

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Alun Ffred Jones,
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1NA.

16 Rhagfyr 2015

Annwyl Alun Ffred

**Cyllid ar gyfer Cynlluniau Ynni Cymunedol yng Nghymru**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 23 Tachwedd 2015 ar ran y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Mae'n bleser cael achub ar y cyfle i amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i gefnogi prosiectau ynni cymunedol dros y pum mlynedd diwethaf.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru gynllun o'r enw Ynni'r Fro yn 2010 i gefnogi ynni adnewyddadwy cymunedol, gan ddefnyddio ei chyllid ei hun a chyllid Ewropeaidd. Diben y rhaglen oedd annog cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol yng Nghymru, yn benodol sefydlu mentrau cymdeithasol cymunedol a fyddai'n creu incwm cynaliadwy drwy osod cyfarpar i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Roedd y rhaglen yn adeiladu ar elfennau o'r cynllun cymorth cymunedol cyntaf a gynigiwyd gan Lywodraeth yr Alban, ond roedd yn dod â thair elfen bwysig ynghyd, sef arian grant er mwyn datblygu cynlluniau, cyngor a chymorth gan swyddogion cyflenwi lleol profiadol, a chyfle i fanteisio ar gyllid cyfalaf ar gyfer y gwaith adeiladu. Yn ystod ein gwerthusiad ganol tymor o Ynni'r Fro, dywedodd ymarferydd blaenllaw ym maes ynni cymunedol ,a oedd yn gweithio gyda'r gwerthuswr, fod y cyfuniad hwn o gymorth a ddarperid drwy gydol oes prosiectau cymunedol "ben ac ysgwydd" uwchlaw'r hyn a oedd yn cael ei gynnig ar y pryd gan weinyddiaethau eraill y DU. Yn ôl y sôn, edrychwyd ar gynllun Ynni'r Fro wrth fynd ati i ddatblygu cronfa CARES yn yr Alban, sydd hefyd yn cael ei ddarparu gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, sef y contractwr sy'n gyfrifol am Ynni'r Fro. Deallwn ein bod, yma yng Nghymru, yn cynnig lefel uwch o gymorth grant nag yn yr Alban na Lloegr ar gyfer camau cynharaf y gwaith o ddatblygu prosiect, pan fo mwy o risg.

Yn ystod y cyfnod o bum mlynedd pan ddarparwyd y gwasanaeth, cafodd dros 200 o gymunedau gymorth i bennu cwmpas eu prosiectau. Yn ystod eich sesiynau casglu tystiolaeth, deallaf ichi glywed oddi wrth rai o'r cymunedau a gafodd gymorth, ac rwyf yn falch inni fedru rhoi swm o £70,783 i Ynni Padarn Peris ar gyfer gwaith paratoi, ynghyd â £69,079 o gyllid cyfalaf a 84 o oriau o gymorth gan Swyddog Datblygu; cafodd Cwmni

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynhyrchu Abergwyngregyn swm o £35,018 ar gyfer gwaith paratoi a 40 o oriau o gymorth gan Swyddog Datblygu.

Gan fod cynllun Ynni'r Fro wedi dod i ben ym mis Mawrth 2015 ar yr un pryd â rhaglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, rwyf wedi dangos fy mod yn ymrwymedig i ynni cymunedol drwy barhau i roi cymorth ar ei gyfer o gronfeydd refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru. Mae hynny wedi bod yn fodd i gadw'r gwasanaeth swyddogion datblygu lleol y gwelwyd wrth gynnal gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen ei fod mor bwysig i'r cymunedau. Mae wedi'n galluogi hefyd i ymateb mewn ffyrdd arloesol i'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ym maes ynni lleol, sy'n datblygu mor gyflym. Er enghraifft, cynigiwyd i Ynni Sir Gâr Cyfyngedig (CELT) yr opsiwn o brynu prosiect ynni adnewyddadwy oddi wrth ddatblygwr ar ddechrau'r cam adeiladu. Roedd angen i CELT gael gafael ar gyllid cyfalaf yn gyflym ar gyfer y taliadau cychwynnol, ac aethom ati'n ddiymdroi i roi benthyciad pontio iddo er mwyn iddo fedru taro bargen, ac yna cynnig cyfranddaliadau a sicrhau benthyciad oddi wrth fenthyciwr masnachol ar gyfer y costau adeiladu. Bydd y ffynonellau hynny'n fodd i ad-dalu'r benthyciad, a bydd hynny, yn ei dro, yn ein galluogi i ailgylchu'r cyllid er budd cymunedau eraill, a bydd prosiect CELT yntau, yn y pen draw, hefyd o fudd mawr i'r cymunedau yn yr ardal.

Rhan o waddol Ynni'r Fro oedd inni gomisiynu'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Ricardo-AEA i ddatblygu pecyn cymorth a fyddai'n rhoi arweiniad i gymunedau a busnesau ar bob agwedd ar ddatblygu prosiect ynni adnewyddadwy. Datblygwyd y pecyn cymorth hwnnw ar y cyd â'r Alban, ond fe'i darparwyd yn ddwyieithog a'i deilwra ar gyfer systemau cynllunio a thrwyddedu Cymru. Os caiff cynnwys y pecyn cymorth ei wella neu ei ddatblygu yng Nghymru, yn yr Alban neu yn Lloegr (lle cafodd y pecyn cymorth ei addasu fel y bo modd ei gynnwys yn Hyb Ynni Cymunedol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd), bydd y gwledydd eraill yn cael gwybod am y gwelliannau a'r datblygiadau hynny fel y bo pawb yn gallu elwa arnynt.

Bydd Llywodraeth Cymru yn lansio gwasanaeth ***Ynni Lleol Llywodraeth Cymru*** ym mis Ionawr 2016, a bydd y gwasanaeth hwnnw'n helpu grwpiau cymunedol, BBaChau a mentrau cymdeithasol i ddatblygu prosiectau ynni lleol. Rydym wedi cydweithio â grŵp o randdeiliaid cymunedol a rhanddeiliaid sy'n gweithio ym maes ynni lleol i ddatblygu'r gwasanaeth hwnnw. Daw'r rhanddeiliaid hynny o Gymru yn bennaf, ond yn eu plith hefyd y mae aelodau uchel eu parch o'r sector ynni cymunedol ar draws y DU. Wrth fynd ati i gynllunio'r gwasanaeth, cydnabuwyd bod angen i gymunedau, awdurdodau lleol a datblygwyr i gyd weithio gyda'i gilydd er budd pobl Cymru os ydym am wireddu manteision llawn ynni lleol. Drwy gynllunio ar y cyd fel hyn, sicrhawyd y bydd modd cynnig cymorth a fydd wedi'i deilwra at gapasiti'r ymgeisydd, a bydd hynny'n fodd i sicrhau mai'r cymunedau lle mae'r angen mwyaf fydd yn cael y cymorth mwyaf o dan y cynllun.

Bydd y gwasanaeth hwn yn cynnig y cyfuniad dibynadwy o gyngor a ddarperir yn lleol a chyfleoedd i gael gafael ar gyllid, yn ogystal â gwell ystod o allu technegol mewn meysydd arbenigol megis cynllunio, materion cyfreithiol a materion ariannol, sy'n hanfodol er mwyn datblygu prosiectau llwyddiannus yn gyflym. Bydd y gwasanaeth hefyd yn cynnig cyfle i greu partneriaethau er mwyn i grwpiau cymunedol fedru meithrin cysylltiadau â grwpiau, datblygwyr a thirfeddianwyr eraill, gan ddod ynghyd â'r partneriaid lleol sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod prosiect yn llwyddo. Wrth i'r pecyn cymorth ddatblygu, bydd cymorth ar gael ar-lein hefyd ar ffurf templedi a gwybodaeth dechnegol. Rhan o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yw penderfynu ar amrywiaeth o fodelau cyllido a fydd yn golygu y bydd modd parhau â phrosiectau ynni cymunedol ar ôl i'r DU leihau neu ddileu tariffau cymorth.

Mae fy swyddogion yn cydweithio â chydweithwyr yn Llywodraeth yr Alban ar ynni adnewyddadwy cymunedol. Ar y cyd â Gweinidog Ynni'r Alban, Fergus Ewing, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd am effaith y newidiadau

arfaethedig i’r Tariffau Cyflenwi Trydan, a hynny oherwydd y bydd y newidiadau hynny’n cael effaith anghymesur ar gynlluniau ynni cymunedol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi teithio i’r Alban sawl gwaith yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ac roeddent yn bwriadu croesawu cydweithwyr o’r Alban i Gymru yn ystod yr haf cyn i Lywodraeth y DU wneud y cyhoeddiadau hynny. Cafodd fy nhîm i, ynghyd â swyddogion o’r Adran Ynni a Newid Hinsawdd, eu gwahodd gan swyddogion Llywodraeth yr Alban i gymryd rhan mewn trafodaethau o amgylch y bwrdd a drefnwyd ganddynt y mis diwethaf i drafod ynni cymunedol. Mae swyddogion wedi cyfarfod hefyd â Local Energy Scotland i drafod y gwasanaeth CARES y mae’n ei weinyddu ar ran Llywodraeth yr Alban.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi cyllid i Ynni Cymunedol Cymru fedru ei sefydlu ei hun fel sefydliad aelodaeth a fydd yn cynnig cymorth ac yn rhoi llais i grwpiau cymunedol sy’n datblygu prosiectau ynni.

O ran hyrwyddo enghreifftiau a chyfleoedd i Gymru ar y llwyfan Ewropeaidd, gwelwyd bod y diffiniad o “clyfar” yn wahanol ar gyfer pob dinas a thref unigol. Yn yr un modd, bydd gwahaniaeth hefyd o ran faint o sylw a roddir i ynni fel rhan o’r pecyn cyffredinol y mae ei angen ar y ddinas neu’r dref i wasanaethu ei hanghenion.

O edrych ar y gwersi a ddysgwyd o wledydd eraill sy’n llwyddo i gael sylw a chyllid ar y lefel Ewropeaidd, gan gynnwys yr Alban, gwelwyd bod angen blaenoriaethu ardaloedd lle mae angen cyllid, a hefyd feithrin partneriaethau hirdymor gyda gwledydd eraill er mwyn dod yn bartner a ffefrir pan fo ceisiadau am gyllid ar gyfer yr ardaloedd hynny’n cael eu hystyried. Mae hynny'r un mor wir ar lefel y gymuned, ar lefel trefi ac ar lefel dinasoedd.

Mae fy swyddogion yn hwyluso’r gwaith o ddatblygu’r ‘blociau adeiladu’ hyn drwy weithio ar draws Llywodraeth Cymru i annog ac i helpu dinasoedd a threfi i feithrin cysylltiadau, gan gynnwys gwneud hynny drwy’r rhwydwaith trosglwyddo gwybodaeth, a thrwy prifysgolion a busnesau. Y nod yw eu helpu i feithrin y perthnasau a’r cysylltiadau y mae eu hangen arnynt er mwyn llwyddo ar lefel leol, ar lefel y DU ac ar y lefel Ewropeaidd. Drwy wneud hynny, maent yn ychwanegu gwerth at y gwaith sy’n mynd rhagddo ar gyfer y Fargen Ddinesig, y Dinas-ranbarthau a’r sylw sy’n cael ei roi bellach i fyw trefol, sydd hefyd yn cynnwys y trefi hynny ar lefel ganolig sydd am fod yn “glyfar”.

Mawr obeithiaf y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i’ch ymchwiliad, ac edrychaf ymlaen at ddarparu rhagor o wybodaeth am y gefnogaeth ehangach i ynni lleol yr wyf yn gyfrifol amdani ar draws fy mhortffolio.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources